


# AILYSGRIFENNU STORI PETER



## DIAGNOSIS CYNNAR O DDIABETES MATH 1 – CANLLAW I FEDDYGON TEULU

REWRITE Peter's Story

DIABETES UK
DEALL DIABETES. BRWYDRO DIABETES.
KNOW DIABETES. FIGHT DIABETES.
CYMRU




## Mae Diabetes UK Cymru yn galw ar bob meddyg teulu yng Nghymru i wneud y canlynol:

- Cofio am y 4T wrth ddiagnosio cleifion
- Cynnal prawf pricio bys cyflym a syml
- Dilyn y llwybr clinigol perthnasol os yw'r lefelau glwcos gwaed yn uchel
- Cyfeirio cleifion sydd newydd gael diagnosis at Diabetes UK ar gyfer adnoddau
- Cyfeirio rhieni at yr Astudiaeth ELSA ar gyfer plant 3-13 oed i ddarganfod beth yw eu risg o ddatblygu diabetes math 1
- Os yw'r lefelau glwcos gwaed yn uchel, atgyfeirio i'r Gwasanaeth Pediatrig Acíwt ar YR UN diwrnod

# STORI PETER

**Ym mis Ionawr 2015, bu farw Peter Baldwin, 13, o Gaerdydd, yn sydyn ac yn annisgwyl o DKA, a hynny o ganlyniad i ddiabetes math 1 heb ei ddiagnosio.**



Roedd mam Peter wedi mynd ag ef i weld meddyg teulu â symptomau tebyg i'r ffliw; cafodd ddiagnosis o haint ar yr ysgyfaint. Cafodd Peter bresgripsiwn am wrthfiotigau a'i anfon adref.

Llai na 24 awr yn ddiweddarach, roedd Peter yn ymladd am ei fywyd. Roedd ei gyflwr wedi gwaethygu a galwodd ei fam, Beth, 999. Pan welodd yr ymatebydd cyntaf Peter, rhoddodd ocsigen iddo a chynnal prawf pricio bys.



Roedd lefel glwcos gwaed Peter yn eithriadol o uchel, a chafodd ei ruthro i'r Adran Frys. Erbyn hyn, roedd eisoes mewn DKA – Cetoasidosis Diabetig. Yn drist iawn, bu farw Peter ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach ar ôl mynd i goma diabetig.

**Gellid bod wedi atal ei farwolaeth. Mae profion pricio bys am glwcos yn cymryd eiliadau, a cheir y canlyniad ar unwaith.**

Rydym yn gofyn i feddygon teulu ledled Cymru ofyn rhagor o gwestiynau yn ystod apwyntiadau, cofio am y 4T, a chynnal prawf pricio bys syml.

# A YDYCH YN GWYBOD BETH YW ARWYDDION DIABETES MATH 1?

## DEALL Y 4T AR GYFER DIABETES MATH 1





## Manteision diagnosis cynnar

- Atal DKA, sy'n peryglu bywyd
- Triniaeth gynharach, gan osgoi niwed hirdymor i'r pancreas ac organau eraill
- Gwell llesiant meddyliol
- Gwell rhagolygon hirdymor sy'n gysylltiedig â chymhlethdodau diabetes
- Mynediad cynt at y cymorth, y driniaeth a'r dechnoleg iawn

## Sut y gallwch gefnogi diagnosis cynnar?



- Cofio am y 4T wrth ddiagnosio cleifion
- Cynnal prawf pricio bys cyflym a syml
- Dilyn y llwybr clinigol perthnasol os yw'r lefelau glwcos gwaed yn uchel
- Cyfeirio cleifion sydd newydd gael diagnosis at Diabetes UK ar gyfer adnoddau
- Cyfeirio rhieni at yr Astudiaeth ELSA ar gyfer plant 3-13 oed i ddarganfod beth yw eu risg o ddatblygu diabetes math 1



# GWADDOL PETER



**Er 2015, mae mam Peter, Beth, a'r teulu wedi ymgyrchu'n ddiflino i feithrin ymwybyddiaeth o ddiabetes math1, ac mae hyn wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer y llywodraeth yng Nghymru.**

“Gwyddom am 12 o blant a gafodd ddiagnosis prydlon ac a lwyddodd i osgoi DKA, diolch i ymgyrch y 4T. Mae gwaddol Peter wedi achub bywydau, a gall fynd ymlaen i achub llawer mwy.



Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol o symptomau math 1 fel na fydd rhaid i deuluoedd eraill ddioddef y torcalon o golli plentyn, yn enwedig pan ellid bod wedi osgoi hynny.”

Beth Baldwin




"Rydym am arfogi meddygon teulu yng Nghymru â chymaint o wybodaeth â phosibl i i'w helpu i ddiagnosio math 1 yn gynt; mae mor hawdd cofio'r 4T, a gallai achub bywyd.



Helpwch fi i ailysgrifennu stori Peter ac atal teulu arall rhag colli plentyn."


Beth Baldwin

Yr Astudiaeth

ELSA

UNIVERSITY OF BIRMINGHAM






# Sgrinio plant ar gyfer diabetes math 1

## Trwy'r Astudiaeth ELSA, darganfyddwch a yw eich plentyn mewn perygl o ddatblygu diabetes math 1 yn y dyfodol

Yn agored i blant 3-13 oed



Prawf pricio bys syml



Gellir ei gynnal yn yr ysgol, gartref neu gan feddyg teulu



Postiwch y canlyniadau

Cysylltu â ni:
elsa@contacts.bham.ac.uk
Ffôn: 0121 414 7814
https://elsadiabetes.nhs.uk/

Sganiwch i gael gwybodaeth

Yr Astudiaeth ELSA IRAS ID 309252 Poster 2 Astudiaeth ELSA v1.0 14.10.2022